Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Rhys Prichard
# Heol Llanfair
# Llanymddyfri
# Sir Gaerfyrddin
# SA20 0HY

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Rhys Prichard

Mae Ysgol Rhys Prichard yn ysgol gynradd gymunedol sydd wedi ei lleoli yn nhref Llanymddyfri yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae 187 o ddisgyblion yn yr ysgol gan gynnwys plant oed meithrin sy'n mynychu'r ysgol yn amser llawn y tymor y maent yn cael eu pen-blwydd yn bedair oed.

Dros dreigl tair mlynedd, mae tua 11% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig is na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae'r ysgol wedi adnabod bod gan tua 15% o'i disgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig is na'r ganran genedlaethol o 21%. Mae tua 30% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2014 a phenodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2018. Mae adeilad newydd yn cael ei adeiladu ar gyfer yr ysgol gyda'r bwriad o'i agor ym mis Chwefror 2021.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at les disgyblion yn llwyddiannus. Mae ethos Cymreig cryf yn bodoli yn yr ysgol, gyda'r ddarpariaeth yn annog disgyblion i wneud defnydd o'r Gymraeg ymhob agwedd o'u gwaith a'u bywyd. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymfalchïo yn eu dwyieithrwydd, gan deimlo eu bod yn rhan bwysig o'u hardal leol.

Mae llawer o'r disgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir iddynt i ddatblygu i fod yn ddysgwyr medrus. Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gyson. Pan gânt gyfleoedd pwrpasol i ddefnyddio eu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig, nac yn dangos digon o falchder a gofal yng nghyflwyniad eu gwaith. Yn ogystal, nid yw lleiafrif y disgyblion yn dangos digon o barch at y staff a'u cyfoedion.

Mae'r staff yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd ac yn sefydlu perthynas waith gynhaliol gyda'r disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd ddysgu gefnogol iddynt. Maent yn cynllunio ystod addas o brofiadau perthnasol sy'n datblygu medrau'r disgyblion yn briodol, ar y cyfan. Serch hyn, mae mwyafrif y staff yn gor-arwain y dysgu ac, o ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddylanwadu ar eu dysgu eu hunain, nac i fod yn ddysgwyr mentrus ac annibynnol.

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn ac mae'n llwyddo i'w rhannu'n fwriadus. Mae arweinwyr yn datblygu prosesau cynllunio gwella yn gyson. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gweithredu ar ddeilliannau monitro a gwerthuso yn ddigon craff a bwriadus er mwyn blaenoriaethu meysydd penodol i'w datblygu. Mae barn arweinwyr yn rhy hael ac nid yw blaenoriaethau'r ysgol yn adlewyrchu'r gwendidau amlwg yn ddigon da. O ganlyniad, nid yw'r arweinwyr yn cael digon o effaith ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu’n fwy effeithiol wrth osod cyfeiriad strategol a herio perfformiad yr ysgol

A2 Cryfhau prosesau hunanwerthuso er mwyn adnabod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant, a’u monitro’n effeithiol

A3 Sicrhau cysondeb yn yr addysgu er mwyn sicrhau ymagwedd gadarnhaol disgyblion at eu dysgu

A4 Dadansoddi a gwneud defnydd effeithlon o wybodaeth olrhain cynnydd

A5 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd cyson ac addas i gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm

A6 Gwella medrau dysgu annibynnol disgyblion a chynyddu effeithiolrwydd grwpiau llais disgyblion wrth ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Maent yn dangos diddordeb addas yn eu gwaith ac yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau ac yn cyflawni'n dda. Yn gyffredinol, nid oes gwahaniaeth rhwng disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim â'u cyfoedion. Mae llawer o'r disgyblion yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg perthnasol ac yn gwneud cynnydd cyson erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n briodol ar oedolion ac ar ei gilydd. Maent yn sgwrsio'n hyderus, ar y cyfan, ac yn dilyn cyfarwyddiadau ac ymateb i gwestiynau'n fedrus mewn ystod addas o gyd-destunau dysgu. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod fuddiol o eirfa ac yn egluro beth maent wedi ei ddysgu yn glir, er enghraifft wrth adeiladu tŷ ar gyfer y tri mochyn bach. Mae llawer o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n effeithiol yn y ddwy iaith ac yn barod i ymateb, cynnig sylwadau a mynegi barn berthnasol. Maent yn defnyddio geirfa wreiddiol fel y bo'n briodol, er enghraifft wrth drafod gwaith celf yr arlunydd, Hokusai.

Mae medrau darllen mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn rhugl a chywir, ac yn ymdrechu'n ddiwyd i adeiladu geiriau anghyfarwydd. Maent yn darllen gyda mynegiant ac ystyr briodol ac yn awyddus i drafod cynnwys eu llyfrau. Enghraifft o hyn yw disgyblion Blwyddyn 2 yn darllen amrywiaeth o destunau er mwyn dysgu sut i ofalu am y byd. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn ddeallus ac ystyrlon yn y ddwy iaith. Maent yn gwahaniaethu'n dda rhwng llyfrau ffeithiol a ffuglen ac yn trafod eu cynnwys yn llwyddiannus. Maent yn ymchwilio'n fwriadus ar y we yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn casglu a choladu gwybodaeth, er enghraifft am Ray Gravell. Maent yn ymarfer eu uwch fedrau darllen yn effeithiol wrth gywain gwybodaeth am gastell Llanymddyfri.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau ysgrifennu. Maent yn cofnodi at wahanol bwrpasau mewn amrywiaeth effeithiol o gyd-destunau. Yn y dosbarth derbyn, mae rhan fwyaf y disgyblion yn sillafu geiriau syml yn weddol gywir wrth ysgrifennu barddoniaeth am y môr. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, maent yn ysgrifennu darnau disgrifiadol a diddorol yn gynyddol gywir, er enghraifft am Twm Siôn Cati. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith wrth amrywio geirfa a chystrawennau er mwyn datblygu eu syniadau'n synhwyrol. Ar y cyfan, maent yn dangos gafael gadarn ar ffurf, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 4 ysgrifennu stori am Llyn Llech Owain. Maent yn dangos gwreiddioldeb wrth ddethol geirfa'n ofalus wrth ysgrifennu dyddiadur plentyn yn Abertawe yn ystod cyfnod y Blitz. Serch hyn, nid yw llawer o'r disgyblion yn cyflawni gwaith estynedig i'r un safon yn gyson. Ar draws yr ysgol, mae camgymeriadau atalnodi elfennol a chamsillafu yn britho gwaith lleiafrif y disgyblion. Yn ogystal, nid yw'r gwaith yn cael ei gyflwyno yn ddigon taclus ac nid yw mwyafrif y disgyblion yn dangos digon o falchder a gofal yng nghyflwyniad eu gwaith.

Yn y cyfnod sylfaen, mae datblygiad mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n briodol. Maent yn defnyddio strategaethau rhif a mesur addas mewn gwahanol gyd-destunau, er enghraifft wrth bwyso cynhwysion i gymysgu bwyd i'r adar. Maent yn datblygu dealltwriaeth o nodweddion siapiau yn gadarn ac yn defnyddio'r wybodaeth er mwyn dylunio a chreu cwch. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ffeithiau rhif ac yn defnyddio dulliau cyfrifo amrywiol yn gywir, ar y cyfan. Mae llawer yn defnyddio eu gwaith rhifedd yn briodol wrth gyfrifo canlyniadau arbrofion gwyddonol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, yn gwneud cynnydd cadarn i'r lefel briodol yn eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

O ran eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio dyfeisiau electronig yn annibynnol wrth dynnu lluniau a ffilmio ei gilydd. Yng nghyfnod allweddol 2, gall llawer o ddisgyblion greu cyflwyniadau amlgyfrwng yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn creu codau i ddatblygu gemau a chyfarwyddiadau. Maent yn gallu defnyddio fformwlâu taenlen yn effeithiol i gyfrifo arwynebedd gwahanol ystafelloedd a chost carpedi'r ardaloedd hynny.

Trwy ddefnyddio ystod o feddalwedd pwrpasol, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn creu animeiddiad am stori Cragwen y crwban a disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn creu ffilmiau sgrin werdd yn fedrus i greu adroddiad tywydd. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn creu ffilmiau ac animeiddiadau diddorol am eu hoff lyfrau ac awduron.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae bron pob disgybl yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n gwbl ddiogel yno. Gwyddant at bwy i droi am gyngor petai rhywbeth yn eu poeni ac maent yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt yn amserol. Mae bron bob un o'r disgyblion yn gwybod sut i wneud dewisiadau synhwyrol am fwyta'n iach ac effaith byw'n iach, er enghraifft wrth ddewis beth i'w gynnwys yn eu bocsys bwyd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd ymarfer corff ac yn ymfalchïo yn yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ganddynt i gadw'n heini. Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn groesawgar ac yn gyfeillgar tuag at oedolion ac ymwelwyr gan ddangos balchder wrth siarad yn hyderus am eu hysgol. Mae ymddygiad mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn gyson dda. Maent yn rhyngweithio'n briodol â'i gilydd yn y dosbarthiadau, wrth weithio mewn parau neu mewn grwpiau bach ac o gwmpas yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw ymddygiad lleiafrif y disgyblion o fewn y dosbarthiadau yn dangos digon o barch at y staff a chyfoedion ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu dysgu.

Ar y cyfan, mae agweddau cadarnhaol at ddysgu gan fwyafrif y disgyblion. Mae'r disgyblion hyn yn canolbwyntio'n dda, yn mwynhau dysgu ac yn cwblhau tasgau'n effeithiol gan ddangos dyfalbarhad a dycnwch priodol er mwyn llwyddo. Serch hyn, nid yw medrau canolbwyntio lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu'n ddigon pwrpasol er mwyn iddynt gyrraedd eu llawn potensial. Maent yn or-ddibynnol ar oedolion am gymorth ac arweiniad. O ganlyniad, nid ydynt yn datblygu'n ddysgwyr creadigol ac annibynnol.

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn mwynhau cystadlu am y darian presenoldeb bob hanner tymor. Mae'r agwedd hon yn un o gryfderau'r ysgol. Mae ystod addas o grwpiau disgyblion, fel y cyngor eco, yn helpu gwella agweddau o amgylchedd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o aelodau y grwpiau hyn yn deall bod athrawon ac arweinwyr yn gwrando'n ofalus, ac yn gweithredu yn unol â'u hawgrymiadau, er enghraifft wrth godi ymwybyddiaeth staff a disgyblion am sut i ddefnyddio llai o drydan a dŵr o amgylch yr ysgol. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw llais disgyblion yn cael digon o ddylanwad ar waith a chyfeiriad yr ysgol.

Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu cymuned ac yn cymryd rhan yn gyson mewn ystod o weithgareddau, gan gynnwys gwasanaethau yn yr eglwys a chymryd rhan yn yr Ŵyl Ddefaid yn flynyddol. Maent yn weithgar wrth gefnogi elusennau amrywiol yn lleol a chenedlaethol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Ar draws yr ysgol, ar y cyfan, mae staff yn magu perthynas gadarnhaol gyda'r disgyblion. Maent yn darparu amgylchedd ddysgu gwerthfawr sy'n cyfrannu'n briodol at les y disgyblion. Mae'r athrawon yn gosod amcanion dysgu clir i'r disgyblion ac yn defnyddio ystod addas o adnoddau perthnasol i ennyn eu diddordeb. Maent yn defnyddio technegau holi addas er mwyn dwyn gwybodaeth flaenorol y disgyblion i gof ac yn datblygu eu syniadau'n gelfydd. Yn yr arfer orau, mae lleiafrif yr athrawon yn sicrhau disgwyliadau uchel a chyflymder addas i'r gwersi, gyda'r disgyblion yn cael eu cynorthwyo i gyflawni'n dda am gyfnodau amserol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. O ganlyniad, nid yw mwyafrif y disgyblion yn canolbwyntio, cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu nac yn gwneud digon o gynnydd yn ystod y gwersi.

Mae athrawon a'r staff cymorth yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Maent yn cefnogi'r disgyblion yn gadarn ac yn eu hannog, ar y cyfan, i ddyfalbarhau â'u tasgau. Maent yn paratoi adnoddau i hwyluso'r dysgu ac yn eu defnyddio'n bwrpasol er mwyn cynnal y disgyblion. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae mwyafrif y staff yn gor-arwain y dysgu ac, o ganlyniad, nid ydynt yn cefnogi'r disgyblion i fod yn ddysgwyr cynyddol annibynnol.

Mae staff yn cynllunio ystod addas o weithgareddau a phrofiadau dysgu sy'n darparu'n briodol i fynd i'r afael ag anghenion penodol disgyblion ar draws yr ysgol. Maent yn sicrhau cyfleoedd cyson i'r disgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu creadigol ac animeiddio yn effeithiol wrth gydweithio ag awdur lleol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd perthnasol i'r disgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae staff yn rhoi adborth llafar amserol i'r disgyblion er mwyn eu galluogi i wybod beth maent yn ei wneud yn dda, ac i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith ymhellach. Mae rhan fwyaf disgyblion y cyfnod sylfaen yn ymateb yn addas ac yn gwella eu gwaith fel y bo'n briodol. Serch hyn, ar draws yr ysgol, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel o ran sicrhau bod y disgyblion yn ymateb i adborth.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n briodol. Ar y cyfan, darperir gweithgareddau ffocws a pharhaus effeithiol sy'n datblygu medrau'r disgyblion yn fuddiol. Mae ardaloedd o fewn y dosbarthiadau yn hyrwyddo'r disgyblion i fod yn ddysgwyr creadigol a mentrus. Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i'r disgyblion ddatblygu eu medrau yn yr amgylchedd allanol.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod y disgyblion yn falch o'u hardal leol a'u bod yn rhan annatod o'r gweithgareddau cymunedol Cymreig. Mae'r athrawon yn creu naws sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac yn manteisio ar gyfleoedd addas i gyfoethogi iaith y disgyblion. Er enghraifft, maent yn paratoi gweithgareddau i'r disgyblion ddysgu am artistiaid lleol ac yn cynnal eisteddfod ysgol. Maent yn cynnal ymweliadau perthnasol sy'n cyfoethogi eu dysgu, er enghraifft i'r Ardd Fotaneg a Chastell Dinefwr. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o'u hardal leol ac yn cynyddu eu diddordeb mewn traddodiadau, diwylliant a hanes Cymru yn llwyddiannus.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella

Mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau gofal a lles y disgyblion yn gryfder. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar â naws gynhwysol a hapus yn perthyn iddi. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn ymfalchïo yn eu hysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn effeithiol. Mae'r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd i ddisgyblion ystyried eu hiechyd a'u lles trwy weithgareddau sydd â ffocws ysgol gyfan ar fyw yn iach, er enghraifft drwy ymchwiliad i ddarganfod sawl gram siwgr sydd mewn gwahanol ddiodydd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus trwy ddarparu cyfleoedd priodol iddynt fyfyrio ar werthoedd mewn gwasanaethau ac ymweld ag addoldai lleol. Mae'r gweithgareddau hwyliog fel creu cân diogelwch y we yn y cyfnod sylfaen yn sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd cadw'n ddiogel ar-lein yn effeithiol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd defnyddio'r we yn ddiogel.

Mae staff yn gweithio'n dda gydag ystod eang o wasanaethau arbenigol, gan gynnwys seicolegwyr addysg a therapyddion galwedigaethol i ddarparu cyngor a chymorth buddiol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae gan yr ysgol ystod o ddarpariaethau defnyddiol, gan gynnwys rhaglenni cefnogi penodol i gefnogi disgyblion. Mae'r defnydd o ymyrraeth i ddatblygu hunanhyder a medrau cymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael effaith gadarn ar ddatblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion hyn.

Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion yn gyson. Maent yn dadansoddi'r wybodaeth yn briodol ac yn ei defnyddio'n berthnasol ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau yn ddigon effeithiol i sicrhau adnabyddiaeth gynhwysfawr o gynnydd pob disgybl na grwpiau penodol. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth ddigon cadarn o gynnydd disgyblion dros gyfnod.

Mae gan yr ysgol berthynas fuddiol â'r rhieni ac maent yn cyfathrebu'n effeithiol â hwy. O ganlyniad, mae'r rhieni yn ymwybodol o weithgareddau a digwyddiadau'r ysgol, a sut i gefnogi'r disgyblion gyda'u gwaith.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u cymuned, er enghraifft wrth iddynt ddiddanu clwb cyfeillgarwch Llanymddyfri mewn cyngherddau a gwasanaethau. Ar y cyfan, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau arwain drwy waith y cyngor eco. Fodd bynnag, nid yw llais y disgybl yn caniatáu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar benderfyniadau am eu dysgu na chyfeiriad yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae'r pennaeth wedi sicrhau cyfleoedd i randdeiliaid gynorthwyo'r ysgol i ddatblygu gweledigaeth glir a phwrpasol. Mae'r arweinwyr yn llwyddo i greu cymuned hapus, ofalgar a chynhwysol sy'n rhoi pwyslais effeithiol ar les disgyblion. Maent yn cefnogi athrawon i ddatblygu medrau disgyblion mewn amrywiaeth briodol o weithgareddau yn gyson. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn herio safonau disgyblion i gyrraedd eu potensial yn ddigon llwyddiannus.

Ar y cyfan, mae arweinwyr wedi cychwyn ar daith o sefydlu cwricwlwm pwrpasol. Maent wedi sicrhau bod cyfleoedd cadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg o fewn gwersi a thrwy gymryd rhan yn gyson yn y gymuned. Mae arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd perthnasol i ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Maent wedi ymateb yn gadarnhaol i ofynion y fframwaith cymhwysedd digidol gyda llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn eu medrau TGCh.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol o'r ysgol ac wedi canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddatrys nifer o faterion pwysig. Maent wedi sicrhau arweinyddiaeth sefydlog ac amser arweinyddol penodol i'r pennaeth. Yn ddiweddar, mae'r llywodraethwyr wedi mynd ati i sicrhau bod yr awdurdod yn ffurfioli categori ieithyddol yr ysgol cyn symud i'r adeilad newydd. Hyd yma, nid yw'r llywodraethwyr wedi canolbwyntio'n ddigonol ar ddwyn y tîm rheoli i gyfrif am safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth.

Mae arweinwyr wedi sefydlu ystod ddefnyddiol o brosesau hunanwerthuso er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Maent wedi gosod rhaglen fonitro drylwyr a thryloyw dros gyfnod o ddwy flynedd, gan rannu hyn yn fwriadus gyda'r staff. Fodd bynnag, nid yw'r monitro wedi bod yn ddigon cywir bob tro i adnabod beth sydd angen ei wella yn yr ysgol ac i gynllunio'n fwriadus i godi safonau disgyblion.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos i gefnogi dysgu proffesiynol staff, drwy gynnig cyfleodd iddynt gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol. Maent yn gwneud hyn drwy roi cyfle i athrawon ymchwilio i arfer orau yn ogystal â gweithredu newid yn y ddarpariaeth. Mae hyn wedi arwain at welliant mewn safonau llafar yn y cyfnod sylfaen a sefydlu'r ardal allanol. Mae sesiynau hyfforddiant yn effeithiol, ac yn yr arfer orau maent yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau cynllun gwella ysgol. Enghraifft nodedig o hyn yw datblygu hyder y staff mewn medrau digidol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau disgyblion ar draws yr ysgol. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad wedi eu sefydlu ac yn weithredol. Drwy hyn, mae'r arweinwyr yn mynd i'r afael â materion tanberfformio lle bydd angen. Fodd bynnag, nid yw'r broses wedi sicrhau bod yr addysgu yn ddigon cyson ac, o ganlyniad, nid yw lleiafrif o'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd.

Mae’r pennaeth yn frwdfrydig iawn o ran datblygu gweithio rhwng ysgolion ac wedi bod yn flaenllaw o ran sefydlu rhwydwaith Bro y Cestyll. Mae’r cydweithio pwrpasol hwn yn ddefnyddiol ar gyfer rhannu syniadau staff a chynnig cyfleoedd i ddisgyblion gael gweithgareddau sy’n cyfoethogi eu profiadau dysgu. Enghraifft dda o hyn yw’r prosiect creu ffilmiau sydd wedi datblygu creadigrwydd a medrau digidol disgyblion yn effeithiol.

Mae arweinwyr wedi sicrhau lefel briodol o staffio ac adnoddau dysgu i gyflwyno’r cwricwlwm yn briodol ac maent yn defnyddio’r adnoddau’n effeithlon, ar y cyfan. Mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu’n briodol â’i blaenoriaethau ysgol ar gyfer gwelliant. Maent yn gwneud defnydd da o grantiau, er enghraifft wrth ddefnyddio’r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i gyflogi cymhorthydd ymyrraeth sy’n cynnig cynhaliaeth gynhwysol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/11/2019